**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Hydref 13eg 2014 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Shereen Lunt a Margaret Bowe.

**Arsylwi:** Tri aelod o'r cyhoedd: Mrs Lynda Bennet, Prifathro Ysgol Pendref; Mr & Mrs C Hobson.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng Raymond Bartley gyda'r Maer y Cyng Rob Parkes yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio yn absenoldeb y cadeirydd y Cyng Margaret Bowe.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig y tri aelod o'r cyhoedd.

**104. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Roy Tickle – eitem agenda A1(5) – cynllunio - Tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws.
(2) Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(3) Colin Hughes - eitem agenda A1(3) - cynllunio - 31, Ffordd y Rhyl.
(4) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda A1(5) – cynllunio - Tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws.

## A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>

**105.** (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Cyfnewidfa Deleffon, Lôn Postws.
(2) Clwyd House, Erw Las, Stâd Ddiwydiannol Colomendy
(3) 31, Ffordd y Rhyl

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer y Forum, 27 - 29 Stryd Fawr (2 gais) mynegwyd rhywfaint o bryderon ynglŷn â'r cynllun a chytunwyd i wneud cais am ymweliad safle cyn penderfynu ar y cais.

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws cafwyd cryn drafodaeth. Dywedwyd fod y cyngor tref wedi penderfynu gwrthwynebu'r cais gwreiddiol. Cyfeiriwyd at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â ffyrdd i feicwyr. Mynegwyd, unwaith eto, nifer o bryderon. Cynigwyd derbyn y cais. Gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cafwyd pleidlais gyda'r Cyng Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes a Gaynor Morgan Rees yn pleidleisio o blaid. Pleidleisiodd y Cyng Brian Davies, Gaynor Wood, Mark Young, Colin L Hughes, Catherine Jones a Rob Parkes yn erbyn y cynnig. Ymatalodd y Cyng Raymond Bartley a Roy Tickle eu pleidlais. **Collwyd y cynnig**. Ar sail y bleidlais yma, y cyngor i wrthwynebu'r cais ar yr un sail a'r gwrthwynebiad a gyflwynwyd ynglŷn â'r cais gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2014.

(2) Materion Cynllunio eraill: (a) Nodwyd pedair tystysgrif yn caniatáu caniatâd cynllunio.
(b) CSDd nodwyd yr hysbysiad gwrandawiad anffurfiol yr arolygydd ynglŷn â Lleweni Parc

(c) Cyfeiriodd clerc y dref at yr hysbysiad a dderbyniwyd ar Fedi'r 16eg oddi wrth Cynllunio CSDd, ac a nodwyd gan y cyngor yn y cyfarfod ar Fedi'r 22ain ynglŷn â thor parhad copïau caled ceisiadau cynllunio ar gael yn y llyfrgelloedd. Bydd copïau caled yn dal i gael eu gyrru i'r cynghorau tref a chymuned. Bydd manylion cyswllt cynghorau tref a chymuned yn cael eu cyhoeddi gan GSdd - goblygiad hyn fydd y gallai'r cyngor tref dderbyn ceisiadau oddi wrth y cyhoedd i edrych ar gynlluniau ac ati a chan hynny yn rhoddi pwysau ychwanegol ar staff gweinyddol y cyngor. Trafodwyd y mater a mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r gwaith ychwanegol y gallai ei godi oherwydd hyn. Cytunwyd i gysylltu â CSDd i fynegi'r anawsterau y gallai hyn ei gael ar weinyddiaeth y cyngor.

**B. Pwyllgor Cyllid:**

**106. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Uproar Fireworks - taliad terfynol ynglŷn â'r tân gwyllt (rhif siec 005464) | - | £3,150.00 |
| (2) | Catalyst Systems – storfa data oddi ar y safle (Awst) (rhif siec 005465) | - | £4.88 |
| (3) | Sodexo – cynnal a chadw gard Dr E P (Medi) (rhif siec 005466) | - | £605.88 |
| (4) | Marian Rees – gwasanaeth cyfieithu (22.9.14) (rhif siec 005467) | - | £102.00 |
| (5) | Sandra Williams – gwasanaeth cyfieithu (8.9.14) (rhif siec 005468) | - | £139.20 |
| (6) | Catalyst Systems – storfa data oddi ar y safle (Medi) (rhif siec. 005469) | - | £4.88 |
| (7) | Hywel Evans – posteri tân gwyllt (rhif siec 005470) | - | £6.75 |
| (8) | Hygen Cleaning - dyfrio basgedi crog (rhif siec 005471) | - | £2,400.00 |
| (9) | Paul Liversidge - clirio llwybrau (Medi) (rhif siec 005472) | - | £170.00 |
| (10) | Cyng Gaynor Morgan Rees - ad-daliad costau tocyn trên i Gaerdydd Ynglŷn ag ymweliad i'r Cynulliad Cenedlaethol (rhif siec 005473) | - | £23.00 |

Cyfanswm taliadau: £6,600.59

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnod **1.4.13 – 30.9.14**

3. Nodwyd y proffil hanner blwyddyn arian wrth gefn a'r adroddiad ariannol

4. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd derbyn £2,006.38 ad-daliad TAW
(2) Ystyriwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Goleuadau Strydoedd Sir Ddinbych ynglŷn â thrwsio'r nodwedd Nadolig ar y Llyfrgell . Derbyniwyd y dyfynbris yn y swm o £756.35 & TAW.
(3) Dywedodd clerc y dref ei fod ef ynghyd a'r Maer a'r Cyng Gaynor Morgan Rees wedi cael gwahoddiad gan Ann Jones AC i fynychu'r Cynulliad Cenedlaethol ar Hydref 21ain er mwyn cyflwyno i'r cynulliad copi wedi ei fframio o Ddeddf 1563. Yn anffodus ni allai'r Maer fynychu. Gofynnodd clerc y dref am i gostau teithio gyda thrên clerc y dref yn y swm o £22 gael eu talu gan y cyngor. Cytunwyd a hyn. (rhif siec 005474).

## C. Pwyllgor Materion Cyffredinol:

**107. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi saith eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) CSDd – adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio. Mynegwyd pryder nad oedd gorsaf bleidleisio yn y ward ganol ar gyfer y rhai oedd yn byw ger gwaelod y dref a'r pellter o'r fan hynny i Eirianfa. Cytunwyd i wneud cais am orsaf pleidleisio yn y rhan yma o'r dref.

(2) E-bost oddi wrth Steve Chalk, cadeirydd / ysgrifennydd Clwb Bowlio Parc Isaf. Dywedodd y Cyng Bartley nad oedd yr e-bost yn gywir. Y wybodaeth a roddwyd oedd bod CSDd yn annhebygol o gynnal a chadw'r ddwy lawnt bowlio yn Sir Ddinbych oedd yn ei meddiant. Roedd llythyr ar ei ffordd oddi wrth CSDd i'r clwb bowlio a chyfarfod pellach i'w gynnal.

(3) Ann Jones AC - copi o ymateb odd wrth y Gweinidog Edwina Hart ynglŷn ag arwydd ar yr A55. Dywedwyd fod yr ymateb yn un siomedig. Roedd gan Ddyffryn Clwyd ei frand ei hun. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod ynglŷn â beth oedd y gweithgor wedi ei gytuno - fel yr adroddwyd yn ôl i'r cyngor mewn cyfarfod blaenorol. Cytunwyd i ofyn i Ann Jones AC i alw cyfarfod o'r gweithgor i adolygu sut roedd y mater yn symud ymlaen.

(4) E-byst oddi wrth Mr Charlie Hobson ynglŷn â Grŵp Busnes Dinbych a'r wefan newydd. Cafwyd cryn drafodaeth ar y materion hyn a mynegwyd nifer o sylwadau a phryderon. Cadarnhawyd nad oedd y grŵp busnes wedi ei sefydlu gan y cyngor tref a bod y cyngor tref ond yn ariannu gwyliau penodol yn Ninbych ac nid at bwrpas y grŵp busnes yn uniongyrchol. Cadarnhawyd fod cryn rwystredigaeth ynglŷn â diffyg symud ymlaen a'r wefan - er hynny cynhaliwyd cyfarfod diweddar ynglŷn â'r wefan ac roedd bellach modd symud ymlaen. Roedd perchnogaeth y wefan yn enw'r cyngor tref yn unig ac er mwyn hwyluso ceisiadau ariannu ac ati. Cytunwyd nad oedd gan y cyngor tref unrhyw awdurdodaeth ynglŷn â'r grŵp busnes. Cytunwyd i ddiolch i Mr Hobson am ddod a'r materion yma i sylw'r cyngor a'i bod hi'n drist fod angen gwneud hynny. Cytunwyd hefyd i wneud cais i'r grŵp busnes am wybodaeth am gyllid y grŵp busnes. Ynglŷn â'r wefan derbyniwyd cais am gynrychiolydd o'r cyngor tref ar y grŵp llywio - cytunwyd fod y Cyng Medwyn Williams yn cynrychioli'r cyngor.

(5) CSDd ynglŷn â bin sbwriel yng Ngardd Dr EP. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Trevor Carr. Roedd defnydd "Perpex" mewn gardd Fictorianaidd yn amheus. Cytunwyd i ofyn oes oedd bin arall ar gael gydag arwyddion dwyieithog.

(6) E-bost oddi wrth Michelle Gundogan ynglŷn â'r gwaith celf a fwriadwyd ar gyfer prosiect Lôn Brombil. Ymhelaethodd y Cyng Medwyn Williams ar y prosiect. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd i beidio â gwrthwynebu na gwneud sylwadau ar yr hyn a fwriadwyd.

(7) Cyfeiriwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Gymdeithas y Byddar Gogledd Cymru at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.

(8) CCTCGC - E-bost a dderbyniwyd gan ysgrifennydd y ddolen ynglŷn a chynnig cadeirydd y ddolen i gynnig Chris Lines o Gaer, cyn ysgrifennydd y ddolen dros gyfnod hir, ar gyfer aelodaeth anrhydeddus. Cytunwyd fod Cyngor Tref Dinbych yn cefnogi'r cynnig.

**108. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

**109. Adroddiadau**: <u>(1)</u> Cafwyd adroddiad gan y Cyng Medwyn Williams ar gyfarfod diweddar ynglŷn â <u>Phrosiect cyn Ysbyty Gogledd Cymru:</u> Roedd dyddiad apêl yn erbyn pryniant gorfodol bellach wedi cau a chyflwynwyd apêl yn erbyn y gorchymyn gan y perchennog. Roedd y penderfyniad ynglŷn â'r apêl a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn wedi mynd i'r Gweinidog ac mae'n debyg y cyhoeddir penderfyniad yn y flwyddyn newydd.

(2) Eirianfa: Dywedodd y Cyng Brian Davies fod Eirianfa wedi colli ei statws fod canolfan argyfwng. Cytunwyd i ymholi pam fod y statws wedi ei gymryd i ffwrdd.
(3) Canolfan Seion: Dywedodd y Cyng Colin Hughes fod y pwyllgor rheoli heb gyfarfod ers peth amser. Nid oedd yr adeilad, yn groes i si lleol, ddim wedi ei gondemnio. Mae'n bosib y bydd y pwyllgor yn gofyn am gynrychiolaeth ychwanegol o'r cyngor tref.
(4) Grŵp Busnes Dinbych: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Rob Parkes ar gyfarfod diweddar. Roedd cynigion ar gyfer prosiect yn Lôn Swan. Bu'r Ŵyl Eirin a gynhaliwyd yn ddiweddar yn un llwyddiannus. Roedd posibilrwydd o'r grŵp busnes a'r grŵp twristiaeth i uno.
(5) CCTCGC. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Rob Parkes ar y gystadleuaeth bowlio a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng trefi caerog gogledd Cymru. Daeth Dinbych yn ail. Diwrnod ffantastig, llwyddiannus a chyfeillgar.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

*Yn y man yma symudodd y cyfarfod i gyngor llawn o dan gadeiryddiaeth y Maer y Cyng Rob Parkes.*

**110 Seddau Gwag y Cyngor:** Ward Isaf - Dywedodd clerc y dref fod dau gais wedi ei dderbyn ar gyfer y sedd wag i'w llenwi drwy gyfethol. Roedd CV pob ymgeisydd wedi eu nodi fel cyfrinachol i'u rhannu i bob aelod o'r cyngor. Ni fu trafodaeth. Cafwyd pleidlais gudd ac etholwyd Keith Philip Stevens i'w gyfethol ar y cyngor tref.

*Yn dilyn cwblhau cofnod 110 uchod symudodd y cyfarfod yn ôl i fodd pwyllgor dan gadeiryddiaeth y Cyng Raymond Bartley.*

**111. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Carnifal Dinbych a'r Ŵyl Ganol Haf - y ddwy yn symud ymlaen yn dda. Digwyddiad codi arian ar gyfer y carnifal i'w gynnal yn Neuadd y Dref ar Ragfyr 13eg 2014.
(2) Fferyllfa Rowlands ar Stryd y Dyffryn - dwy nodwedd fechan gerfiedig wedi eu tynnu i lawr ac wedi diflannu yn ystod gwaith atgyweirio adeilad wedi ei restru.
(3) Bu'r daith gerdded a gynhaliwyd yn ddiweddar i godi arian i Sant Cyndeyrn yn un llwyddiannus. Diolchodd y Cyng Mark Young i'r Maer am gychwyn y daith ac i'r Cyng Gaynor Wood a Roy Tickle am eu cymorth.
(4) Hwb Dinbych yn cael ei roddi ymlaen am wobr genedlaethol
(5) Materion diogelwch ynglŷn â'r rheiliau ar ochor ogleddol y Stryd Fawr - roedd y gwaith cerrig o dan y rheiliau yn hollti - cytunwyd i ysgrifennu at GSDd i ofyn i'r gwaith cerrig gael eu profi ar gyfer straen.
(6) Gwaith newid y pibellau plwm ym Mryn Garth bron a'i gwblhau ac i'w cysylltu â'r prif gyflenwad.
(7) Maes parcio Lôn Postws mewn cyflwr blêr.
(8) Beth oedd yn digwydd ar hen orsaf heddlu ar Stryd y Dyffryn?
(9) Derbyniwyd pryderon oddi wrth blant fod si o gwmpas fod Cae Howell i gau. Dywedwyd fod yna bosibilrwydd y bydd cynnal a chadw parciau ar draws y sir yn cael ei leihau.
(10) Gwasanaeth parcio a theithio yn cael ei gyflwyno ar gyfer Ysbyty Glan Clwyd, yn rhedeg pob chwarter awr o safle cyn ffactri Hotpoint ym Modelwyddan.
(11) Cyn safle Kwik Save – y gobaith oedd y byddai'r gwerthiant wedi ei gwblhau o fewn ychydig wythnosau.
(12) Dywedodd clerc y dref ei fod wedi derbyn enw ar gyfer y swydd o Farsial Dinesig, Mr Stuart Owen o Landyrnog. Datganodd y Cyng Brian Davies ddiddordeb. Cytunwyd fod clerc y dref yn cysylltu â Mr Owen.
(13) Cyfeiriodd clerc y dref at y briodas ddiweddar rhwng y Cyng Shereen Lunt a Mr Mike Devine. Mynegodd y cyfarfod eu dymuniadau gorau i'r ddau.

(14) Cyfeiriodd clerc y dref at y cyhoeddiad diweddar fod y Cynghorwyr Gaynor Wood a Roy Tickle i briodi. Mynegodd y cyfarfod eu llongyfarchiadau i'r ddau.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 9.01 o'r gloch.

Arwyddwyd:.....................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................